**Gwybodaeth gyffredinol am gyflwyno cais am drwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).**

Mewn nifer o sefyllfaoedd, rhaid cael trwydded er mwyn gweithio gyda rhywogaethau a warchodir. Er mwyn eich ystyried ar gyfer trwydded o'r fath, rhaid i CNC gael rhywfaint o wybodaeth.

Er mwyn sicrhau y gallwn ystyried eich cais yn effeithlon, darllenwch yr holl nodiadau ar y ffurflen gais a gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb yr holl gwestiynau'n llawn. Dim ond ar ôl bodloni meini prawf arbennig y bydd modd i CNC roi trwydded i chi. Dwy o'r agweddau pwysicaf yw faint o brofiad sydd gan yr ymgeisydd a natur y gwaith dan sylw.

Os na fydd CNC yn derbyn yr holl wybodaeth y gofynnir amdani, gallai hyn arwain at oedi cyn prosesu'r cais. Nod CNC yw prosesu'r ceisiadau o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr **<u>holl</u>** wybodaeth y gofynnir amdani. Hefyd, mae disgwyl y bydd cyflwyno newidiadau i drwyddedau presennol yn cymryd hyd at 15 diwrnod gwaith.

Dyma wybodaeth gryno ar gyfer ymgeiswyr yn amlinellu'r hyn a ddisgwyliwn:

- Dylai pawb sy'n cyflwyno **geirda** nodi pa brofiad personol sydd ganddynt o'ch gweld yn gwneud y gweithgareddau yr ydych yn cyflwyno cais ar eu cyfer, yn arbennig y dulliau yr ydych yn cyfeirio atynt yn eich cais.

- Os ydych wedi cael **trwydded o'r blaen** yn ymwneud â'r rhywogaeth dan sylw gan asiantaeth arall, dylech gyflwyno copi o'ch trwydded berthnasol.

- Nodwch ar ba **safle** neu **safleoedd** penodol yr hoffech wneud y gwaith.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi **diben** y gwaith yn glir. Mae hyn yn bwysig o ran y math o drwydded a fydd yn cael ei rhoi.

- Os ydych eisiau **hyfforddi eraill** i weithio gyda rhywogaethau a warchodir, cyflwynwch dystiolaeth fod gennych brofiad digonol, gan nodi'r uchafswm o bobl yr hoffech eu hyfforddi, a dyddiadau a lleoliadau'r digwyddiadau.

- Wrth nodi enwau **cynorthwywyr** neu **asiantwyr achrededig**, gwnewch yn siŵr bod ganddynt ddigon o brofiad yn y gweithgareddau dan sylw, a nodwch pa weithgareddau y byddant yn eu gwneud, ac ymhle. Deiliad y drwydded sy'n gyfrifol am bawb sy'n gweithredu dan y drwydded. Pe bai unrhyw reolau'n cael eu torri, gallai CNC ddirymu eich trwydded.

- Os byddwch yn tarfu ar **rywogaethau eraill a warchodir** wrth wneud y gweithgareddau arfaethedig, efallai y bydd angen trwydded arnoch ar gyfer y rhywogaethau hynny hefyd. Er enghraifft, wrth arolygu ystlumod

mewn safleoedd tanddaearol lle ceir dyfrgwn, byddai'n rhaid ichi gael trwydded i darfu ar y dyfrgwn yn ogystal â thrwydded i darfu ar yr ystlumod.

- Braint, nid hawl, yw cael trwydded i weithio gyda rhywogaethau a warchodir.

Os mai dyma'r tro cyntaf ichi gyflwyno cais am drwydded, fel arfer bydd CNC yn rhoi trwydded am flwyddyn. Wedyn, y drefn arferol yw adnewyddu trwyddedau am 2 flynedd, oni bai ein bod yn cael trafferth i gael gafael ar yr adroddiadau perthnasol neu fod problemau eraill yn codi gyda'r gweithgareddau y cawsoch drwydded ar eu cyfer yn y gorffennol.